# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn 30 Hydref 2002

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

**Cynnwys**


1 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes


## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

### Pobl Anabl

**C7 Owen John Thomas:** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i helpu pobl anabl i fwynhau cyfleusterau hamdden yn well? (OAQ19786)

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Jane Hutt):** O dan Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995, mae gan bob darparwr gwasanaethau, gan gynnwys darparwyr gwasanaethau hamdden, ddyletswydd i beidio â chamwahaniaethu yn erbyn pobl anabl, a dylai pob un ystyried newid ei ddull o ddarparu gwasanaethau. Atgyfnerthir y cyfrifoldebau hyn wrth i Ran III o'r Ddeddf gael ei rhoi ar waith ym mis Hydref 2004.

### Ysbyty Dewi Sant

**C8 Pauline Jarman:** Beth yw'r ad-daliad blynyddol sy'n cael ei dalu i'r contractwyr am brosiect cyllid menter preifat Ysbyty Dewi Sant yng Nghaerdydd? (OAQ19773)

**Jane Hutt:** Swm o £13.4 miliwn yw gwerth cyfalaf Ysbyty Dewi Sant yng Nghaerdydd. Mater i'r carfanau sy'n gysylltiedig â'r contract yw maint y tâl unedol.

### Rhestrau Aros

**C9 Jonathan Morgan:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu sut y mae ei haddewid i leihau rhestrau aros wedi cael ei wireddu? (OAQ19787)

**Jane Hutt:** Ym Mehefin 2001, cyhoeddais strategaeth amseroedd aros ac, ers hynny, bu buddsoddiad arwyddocaol yn y gwaith o leihau amseroedd aros, gyda gwelliannau ym meysydd blaenoriaeth llawdriniaethau cardiaidd ac orthopedeg. Yr ydym am i hyn gael ei estyn i bob maes ac mae tîm blaengaredd mewn gofal yn cefnogi'r GIG wrth foderneiddio'r ffordd y mae'n rheoli ac yn darparu gofal i gleifion.

### Penodi Prif Weithredwyr i'r Byrddau Iechyd Lleol

**C10 David Lloyd:** A wnaiff y Gweinidog roi adroddiad am hynt penodi prif weithredwyr i'r byrddau iechyd lleol fel rhan o ailstrwythuro'r GIG? (OAQ19771)

**Jane Hutt:** Penodwyd 13 prif weithredwr yn y rownd gyntaf, a gyfyngwyd i staff awdurdodau iechyd. Cafodd y naw swydd sy'n weddill eu hailhysbysebu ar gyfer cystadlu agored. Cynhaliwyd cyfweliadau ar gyfer chwech o'r swyddi hyn ac mae cyfweliadau ar gyfer y tair arall ar y gweill. Caiff yr ymgeiswyr wybod y canlyniadau dros yr wythnosau nesaf.

## Banc Tyfiannau/Meinweoedd Cymreig

**C11 Eleanor Burnham:** A yw'r Gweinidog yn bwriadu cefnogi datblygiad banc tyfiannau/meinweoedd yng Nghymru? (OAQ19767)

**Jane Hutt:** Yr wyf yn falch iawn i gyhoeddi fy mod yn rhoi arian ar gael i sefydlu canolfan cymhwyso ymchwil i ganser yng Nghymru yn seiliedig ar fanc tyfiannau/meinweoedd. Bydd Cymru yn awr yn rhan o rwydwaith ymchwil canser y DU gyfan, a fydd yn cyplysu darganfyddiadau yn y labordy â gofal cleifion. Mae hwn yn newydd da i gleifion a phroffesiynau iechyd fel ei gilydd ledled Cymru.

## Darpariaeth Fferyllol 24 awr

**C12 Huw Lewis:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch cwmpas darpariaeth fferyllol 24 awr yng Nghymru? (OAQ19811)

**Jane Hutt:** Mae oriau agor fferyllfeydd yn fater i'r awdurdod sy'n contractio—yr awdurdod iechyd perthnasol ar hyn o bryd—a disgwylir i'r awdurdod ofalu am anghenion pobl ymhob cymdogaeth o ran gwasanaethau fferyllol. Mae awdurdodau iechyd yn gyfrifol, yn benodol, am: drefnu gyda chontractwyr fferyllol i sicrhau bod gwasanaethau proffesiynol fferyllydd cofrestredig ar gael i'r cyhoedd y tu hwnt i oriau gwaith arferol; benderfynu pa wasanaethau mynediad at fferyllfeydd i'w prynu, a phenderfynu'r amodau a thelerau, gan gynnwys y tâl, ar gyfer y trefniadau am y gwasanaethau hyn i'w cytuno gyda chontractwyr fferyllol.

Mae ein dogfen ymgynghori 'Moddion i Lwyddo—Strategaeth ar gyfer Fferylliaeth yng Nghymru' yn cydnabod y dylai gofal fferyllol brys fod ar gael ymhob ardal yng Nghymru, 24 awr y dydd. Gall fferyllfa gymunedol neu fferyllfa ysbyty fel ei gilydd ddarparu hyn ac, i sicrhau y caiff ei ddefnyddio yn effeithiol, dylai fod ar gael drwy ddarpariaeth frys gyffredinol y GIG. Rhagwelwn y cytunir yn lleol ar drefniadau gwasanaethau y tu allan i oriau, i fodloni anghenion lleol.

Yn dibynnu ar gasgliadau'r ymgynghori ar y ddogfen hon, y dylid bod wedi ei gwblhau erbyn 31 Rhagfyr 2002, cynigiaf gomisiynu astudiaeth o'r angen sydd ar weithwyr proffesiynol a chleifion am wasanaethau y tu allan i oriau erbyn Mawrth 2003.

## Menter Cychwyn Cadarn

**C13 Christine Gwyther:** A wnaiff y Gweinidog roi adroddiad ar hynt menter Cychwyn Cadarn? (OAQ19790)

**Jane Hutt:** Ers 1999, mae'r Cynulliad wedi cyflwyno oddeutu £39 miliwn drwy'r grant, gan ganiatáu i'r fenter dyfu i gynnwys dros 270 o brosiectau unigol drwy'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

Yn 2002-03, daw Cychwyn Cadarn yn rhan o Cymorth. Bydd y grant hwn yn cynnig mwy na £39 miliwn y flwyddyn, gydag isafswm y buddsoddiad yn 35 y cant, a hynny yn y gwasanaethau i blant o dan bedair oed. Mae cynlluniau'r partneriaethau yn cael eu hasesu ar hyn o bryd.

## Gwasanaethau i Bobl Hŷn

**C14 Christine Chapman:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch darpariaeth gwasanaethau i bobl hŷn yng Nghymru? (OAQ19794)

**Jane Hutt:** Yr ydym yn datblygu strategaeth gynhwysfawr i bobl hŷn, a fydd yn cynnig sail strwythuredig i'r Cynulliad a chyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru ddatblygu polisïau a chynlluniau i ymateb yn well i anghenion pobl hŷn a chydnabod y ddemograffeg newidiol.

Croesawyd datblygiad y strategaeth yn gynnes gan bob un o'r sefydliadau statudol, gwirfoddol a phreifat a gyfrannodd at adroddiad y grŵp ymgynghorol 'Pan fwyf yn hen a pharchus…', a drafodwyd yn y Cyfarfod Llawn ar 16 Mai, cyn ei gyhoeddi. Arweiniodd ymgynghori ar yr adroddiad hwn at dros 100 o ymatebion, a roes gefnogaeth gadarn i'r egwyddorion a amlinellwyd, yn ogystal ag i lawer o'r cynigion manwl.

Disgwyliaf lansio'r strategaeth yn ffurfiol ar 30 Ionawr 2003 mewn cynhadledd i lywodraeth leol, y GIG a'r sector gwirfoddol, gan fydd pob un â rôl hollbwysig yn y gwaith o sicrhau bod gan y strategaeth ffocws lleol cryf wrth ei rhoi ar waith.

### Cyfraddau Gweithgarwch Cleifion

**C15 David Melding:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch cyfraddau gweithgarwch cleifion y GIG yng Nghymru? (OAQ19758)

**Jane Hutt:** Cyhoeddwyd y ffigurau diweddaraf gweithgaredd ysbytai GIG Cymru heddiw, sy'n cynnwys y 12 mis hyd at ddiwedd Mehefin 2002. Fel yr eglura'r cyhoeddiad gan y Gyfarwyddiaeth Ystadegol, nid yw'r gweithgaredd y cyfeirir ato yn y cyhoeddiad yn adlewyrchiad llawn o weithgaredd ysbytai gan ei fod ond yn cynnwys gweithgaredd dan arweiniad ymgynghorwyr. Cynhyrchodd Adran Rheoli Perfformiad GIG Cymru adroddiad, sydd ar gael ar y rhyngrwyd, sy'n nodi nifer o ddatblygiadau yn y gwasanaeth, megis defnyddio dulliau newydd ar gyfer derbyniadau brys, clinigau a arweinir gan nyrsys arbenigol, a thelefeddygaeth. Ni chaiff y datblygiadau hyn eu cynnwys yn rheolaidd yn y systemau adrodd ar draws y GIG. Bwriedir cynnal gwaith pellach i archwilio sut y gellid cofnodi gweithgaredd o'r fath.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

### Dŵr Ffres i'w Yfed mewn Ysgolion

**C6 David Melding:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ddarparu dŵr ffres i'w yfed mewn ysgolion? (OAQ19735)

**Y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes (Jane Davidson):** Yr wyf yn credu'n gryf y dylai dŵr fod ar gael yn hawdd i blant a chredaf yn gryf hefyd yn y buddiannau o ran iechyd a dysgu y gellid eu cael o yfed dŵr. Ar sail hynny, mae fy swyddogion ar hyn o bryd yn ystyried sut y byddwn yn cynyddu'r nifer o ffynonellau dŵr sydd ar gael mewn ysgolion yng Nghymru.

### Y Fagloriaeth Gymreig

**C7 Christine Chapman:** Pa gynnydd a wnaeth y Gweinidog o ran y cynlluniau ar gyfer y fagloriaeth Gymreig? (OAQ19697)

**C10 Owen John Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y cynnydd i sefydlu'r fagloriaeth Gymreig? (OAQ19724)

**Jane Davidson:** Mae Cyd-bwyllgor Addysg Cymru wedi datblygu model manyleb peilot ar gyfer y fagloriaeth Gymreig ers Mehefin 2001. Awdurdodwyd y fanyleb gan Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru i'w ddefnyddio mewn canolfannau peilot, y bydd y cyntaf o'u bath yn rhoi ar waith y cymhwyster newydd pwysig hwn fel arbrawf o fis Medi 2003.

### Maint Dosbarthiadau

**C8 Gwenda Thomas:** A yw'r Gweinidog wedi cyhoeddi unrhyw ganllawiau ar gyfer ysgolion pan fo gofyn iddynt rannu plant o'r un blwyddyn yn grwpiau er mwyn cyfyngu ar faint y dosbarthiadau? (OAQ19707) [R]

**Jane Davidson:** Nac ydw. Mater i benaethiaid a chyrff llywodraethu yw penderfyniadau ar drefnu dosbarthiadau. Byddai'n anaddas i mi bennu sut y dylem wneud hyn pan eu bod yn amlwg mewn sefyllfa well i ystyried eu hanghenion a'u hamgylchiadau. Bydd gennych ddiddordeb mewn gwybod, o bosibl, nad yw cyflwyno cyfyngiadau ar faint dosbarthiadau wedi achosi cynnydd yn nifer y dosbarthiadau cymysg o ran oedran yn ein ysgolion.

### Adeiladau Ysgolion

**C9 Peter Black:** Sut mae'r Gweinidog yn monitro'r gwaith o wella adeiladau ysgolion ledled Cymru? (OAQ19752) [R]

**Jane Davidson:** Caiff y gwaith ei fonitro, gan mwyaf, drwy ddeialog rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru ac awdurdodau lleol. Mae fy swyddogion mewn cysylltiad cyson ag awdurdodau addysg lleol ac maent wrthi'n cwblhau cyfres o gyfarfodydd â hwy.

*Grwpiwyd cwestiwn 10 (OAQ19724) gyda chwestiwn 7.*

### Grantiau Dysgu'r Cynulliad

**C11 Helen Mary Jones:** Pa drafodaethau a gafodd y Gweinidog a'i swyddogion gyda chynrychiolwyr yr Asiantaeth Budd-daliadau cyn rhoi grantiau dysgu'r Cynulliad ar waith? (OAQ19740)

**Jane Davidson:** Pan y cyhoeddwyd fis Chwefror diwethaf y byddai grant dysgu newydd yn cael ei gyflwyno gan y Cynulliad, cyfarfu swyddogion gyda chyd-weithwyr yn yr Adran Gwaith a Phensiynau i drafod beth fyddai'r goblygiadau posibl ar gyfer y rhai sy'n derbyn buddiannau, a buont mewn cysylltiad cyson ers hynny. Ysgrifennais hefyd at yr Is-Ysgrifennydd Gwladol yn yr Adran Gwaith a Phensiynau, Malcolm Wicks, i bwysleisio'r angen i ddiystyru grantiau dysgu'r Cynulliad. Cytunodd yr Adran Gwaith a Phensiynau y byddai'n edrych yn ystyriol ar ein cais y dylid diystyru grantiau dysgu'r Cynulliad fel incwm myfyrwyr. Yr ydym yn parhau i bwyso dros eu diystyru'n gyfan gwbl fel incwm myfyrwyr.

### Addysg Gymraeg

**C12 Owen John Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddatgan pa bryd y cyhoeddir canlyniadau'r arolwg o rieni â phlant dan oed ysgol er mwyn pennu lefel y galw am addysg Gymraeg? (OAQ19728)

**Jane Davidson:** Bu'r wybodaeth ar gael i'r cyhoedd ers iddo fod ar gael i aelodau o'r panel ymgynghorol ar flynyddoedd cynnar yn gynharach eleni. Dengys y canlyniadau sy'n berthnasol i'r rhan hon o'r ddarpariaeth fod 2,165 (18 y cant) o'r 12,216 o ymatebion a dderbyniwyd wedi nodi, pe bai ganddynt ddewis o ddarpariaeth a'i fod am ddim, mai darpariaeth cyfrwng Cymraeg fyddai eu dewis cyntaf. Mae hwn yn sefyllfa bositif iawn y gallwn weithio arni ac y byddwn yn ei datblygu.

Ar hyn o bryd, yr ydym yn llunio cynnig gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg i gynnal archwiliad o'r ddarpariaeth sydd wedi ei hanelu'n unig at ddarpariaeth dwyieithog a chyfrwng Cymraeg, lle y byddwn yn canolbwyntio ar faterion yn ymwneud ag ystod, cwmpas a nodweddion arbennig y ddarpariaeth mewn ardaloedd gwledig ac mewn lleoliadau a gynhelir a rhai nas cynhelir.

### Grant Dysgu'r Cynulliad

**C13 Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar grant dysgu'r Cynulliad? (OAQ19710)

**Jane Davidson:** Cafodd grant dysgu'r Cynulliad ei lansio'n llwyddiannus yn ei flwyddyn arloesi. Mae'n amlwg y bydd miloedd o ddysgwyr yn cael budd sylweddol o'r cynllun newydd hwn.

### Cymwysterau Safon Uwch

**C14 Val Lloyd:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar arholi a graddio cymwysterau Safon Uwch? (OAQ19694) [R]

**Jane Davidson:** Yr wyf am ail-longyfarch y myfyrwyr a'r athrawon hynny a weithiodd mor galed ac a gynhyrchodd y canlyniadau ardderchog a gyhoeddwyd yr haf hwn. Mae'n anffodus fod rhai wedi defnyddio'r ddadl ddiweddar ynghylch graddio rhai cymwysterau Safon Uwch a ddyfarnwyd gan gyrff o Loegr i geisio tanseilio'r llwyddiannau hynny. O gofio hynny, croesawaf adrodd Mike Tomlinson yn frwd, er bod y canfyddiadau yn cyfeirio gan mwyaf at Loegr—yr Awdurdod Cymwysterau a Chwricwlwm a'r cyrff dyfarnu yn Lloegr.

Ni ddigwyddodd unrhyw beth anffafriol o fewn Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru na Chyd-bwyllgor Addysg Cymru. Er na chododd problemau eleni yng Nghymru, dysgwn wersi o ganlyniad: mae ein myfyrwyr a'n athrawon yn haeddu hynny o leiaf. Yr wyf yn gobeithio y bydd y profiad a gafwyd eleni yn ein helpu i ddod â'r cecru blynyddol ynglŷn â safonau i ben. Yr wyf am annog cyrhaeddiant a dathlu llwyddiant.

### Baich Biwrocratiaeth ar Athrawon

**C15 Cynog Dafis:** Pryd y gall athrawon yng Nghymru ddisgwyl gweld manteision ymdrech Llywodraeth Cynulliad Cymru i ysgafnhau baich biwrocratiaeth? (OAQ19750)

**Jane Davidson:** Yr oedd fy natganiad ysgrifenedig ar 15 Gorffennaf 2002 yn nodi'r cynnydd a wnaed o ran gweithredu argymhellion yr adroddiad ar leihau beichiau biwrocrataidd ar ysgolion, y cytunwyd arno gan y Cynulliad yng Ngorffennaf 2001, ac o ran mesurau eraill yr wyf wedi eu gweithredu i leihau pwysau ar athrawon.

Fe gymer beth amser i ddosbarthiadau weld buddiannau'r camau a gymerwyd. Dros y tair blynedd nesaf, credaf y bydd athrawon yn gweld newid gwirioneddol yn y pwysau sydd arnynt. Fodd bynnag, credaf hefyd mai'r ffordd orau o ryddhau amser athrawon yw trosglwyddo gwaith y maent wedi ei bentyrru dros sawl blwyddyn i staff gweinyddol a staff cymorth sydd yn fwy abl i ymdrin ag ef.